

Offeren Sul yr Hinsawdd: Awgrymiadau gan CAFOD

Nodiadau'r Arweinydd

Nodyn ynghylch Covid-19

Mae dathlu'r Offeren o dan gyfyngiadau Covid-19 wedi ein hamddifadu o lawer o'r elfennau materol a synhwyrdd o greadigaeth Duw sy'n greiddiol i'r sagrafen. Collasom y gân, yr aroglarth, y cwpan cyffredin, rhannu arwydd tangnefedd yn gorfforol a'r gallu i groesawu pawb i fwrdd y wledd lle gellir rhannu 'ffrwyth y ddaear a gwaith dwylo dynol'.

Ac eto, gallwn barhau i gysylltu'r sagrafen â rhyfeddodau'r cread drwy gynnal yr Offeren yn yr awyr agored, os bydd y cyfyngiadau'n caniatáu. Os byddwn dan do, gallwn gynnwys planhigion, hadau neu rai o ffrwythau eraill y ddaear yn ein Hofferen.

Pennu'r dyddiad

Gellir cynnal yr Offeren hon unrhyw ddydd Sul cyn dechrau Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) a gynhelir yn Glasgow ar 1 Tachwedd 2021. Mae prosiect ecwmenaidd Sul yr Hinsawdd yn awgrymu, os yw'n bosibl, y dylid ei chynnal cyn Gwasanaeth Cenedlaethol Sul yr Hinsawdd yn Glasgow ddydd Sul, 5 Medi 2021. Gall Tymor y Creu, (1 Medi – 4 Hydref) hefyd fod yn adeg addas. Gallwch ddewis ddynodi'r Offeren yn ddathliad o unrhyw gamau Byw'n Syml neu unrhyw weithgaredd arall mae eich plwyf wedi ei gyflawni i ofalu am greadigaeth.

Boed eich Offeren yn digwydd wyneb yn wyneb ynteu'n rhithwir, ystyriwch wahodd eich Aelod Seneddol neu eich Aelod Senedd Cymru, er mwyn sicrhau bod eich cynrychiolydd yn ymwybodol o'ch ymrwymiad i adeiladu byd gwell a gwyrddach.

Cam 1: Paratoi i ddathlu Offeren Sul yr Hinsawdd

- Cynhaliwch yr Offeren yn yr awyr agored yng ngŵydd natur os yn bosibl.
- Defnyddiwch olau kannwyll os yw'n wasanaeth gyda'r nos.
- Dylech gynnwys eitemau symbolaidd ar gyfer yr offrwm sy'n cynrychioli ein cartref cyffredin, er enghraifft, hadau, pridd neu blanhigion, i'w trefnu o amgylch yr allor. Os cynhelir y gwasanaeth ar-lein, gall yr offeiriad neu aelod o'r tîm litwrgi dynnu sylw at y rheini.
 - Powlen o bridd a phowlen o hadau i gynrychioli cyfoeth y greadigaeth.
 - Planhigyn o ardd gymunedol, rhandir neu brosiect gardd ysgol.
 - Glôb i gynrychioli'r ddaear, ein cartref cyffredin.

- Lluniau o'ch cymuned yn cynorthwyo i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd mewn unrhyw ffordd, waeth pa mor fach. A yw eich plwyf yn gymuned Byw'n Syml? A ydych wedi cymryd camau i fod yn fwy effeithlon o ran defnyddio ynni? A ydych wedi gwneud unrhyw beth i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd?
- Adnodd dewisol ar gyfer pregeth:
Dylid defnyddio'r darlleniadau ar gyfer y Sul pryd y cynhelir yr Offeren. Mae'r Cyfamod Hinsawdd Catholig a'r Tîm Ffydd Gyfannol yn darparu adnoddau ar gyfer pregethwyr yn ogystal â deunyddiau eraill a all eich cynorthwyo i blethu gweledigaeth gyfoethog *Laudato Si'* a gofal Cristnogol am y greadigaeth i'r Offeren. Mae'r adnoddau'n cynnwys rhannau allweddol o'r Ysgrythur, darlleniadau, dyfyniadau o *Laudato Si'*, lluniau, hanesion a nodiadau ar gyfer bwletinau. Ewch i <https://catholicclimatecovenant.org/resources>.
- Golygwch a chopiwch dudalennau gwasanaeth yr Offeren hon i'w dosbarthu, neu e-bostiwch y ddolen ymlaen llaw.

Cam 2: Trefnwch ddigwyddiad anffurfiol yn dilyn yr Offeren

Trefnwch gyfle i bobl gyfarfod a sgwrsio ar ôl yr Offeren, yn ddelfrydol wyneb yn wyneb i rannu lluniaeth, ond ar-lein os bydd angen.

Mae plwyfi'n aml yn gartrefi i amrywiol gymunedau, felly rydym yn eich annog i wahodd gwahanol grwpiau o'r plwyf i'ch digwyddiad.

Rhannwch syniadau ynghylch newid yn yr hinsawdd a'n cyfrifoldeb fel Cristnogion i ofalu am y greadigaeth. Gofynnwch i chi eich hun, beth fwy alla i ei wneud i gynorthwyo'r amgylchedd? Beth arall allwn ni ei wneud fel cymuned blwyfol? Beth yw swyddogaeth cyfrifoldeb Cristnogol yn y drafodaeth ar y newid yn yr hinsawdd?

Neu sefydlwch gwis hinsawdd, sydd hefyd yn gallu gweithio'n dda ar-lein.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan CAFOD: cafod.org.uk/climate.

Taflen Offeren Sul yr Hinsawdd

Emyn agoriadol. Awgrymiadau: Mawl i'r Creawdwr, er enghraifft – *Mor Fawr wyt Ti neu Popeth a wnaeth ein Duw a'n Rhi.*

Myfyrdod agoriadol: Creadigaeth Duw yw ein byd

Croeso i'n gwasanaeth i Ddathlu'r Greadigaeth heddiw. Byddwn yn diolch am rodd creadigaeth Duw ac fe gawn ein hatgoffa ein bod yma i'w rhannu gyda holl fodau byw y ddaear.

Dechreuwn gyda myfyrdod a ysgrifennwyd yn dilyn cyfarfod y Cenhedloedd Unedig ynghylch yr hinsawdd yn 2018 yng Ngwlad Pwyl. Mae'n cyflwyno gofalon yr Eglwys ynghylch y creadigaeth, a daw'r gwreiddiol o *The Ecologist's Breviary*.

Saif sagrafen yr Ewcharist, yr Offeren Sanctaidd, wrth graidd ein bywyd fel Cristnogion. Mae'n rhoi cyfle unigryw i ni sefydlu cymundeb dwfn â Duw a chyda phob realiti materol. Mae'n fan unigryw i ymgysgu â'r Dwyfol a'r daearol.

Yma, rydym yn diolch am y cyfan sy'n dda ynom ac o'n cwmpas. Yma, mynegwn ein cariad tuag at Greawdwr ac Arglwydd y Bydysawd, cariad sy'n ymateb i'r gweithiau mawr mae'n eu cyflawni'n ddi-baid. Yma, gofynnwn am adnewyddu ein meddyliau, ein calonau, a'n synhwyrâu fel y gallwn weld ein cymydog a byd natur fel mae Duw'n eu gweld. Yma, o'r diwedd, gofynnwn am faddeuant am y drygioni a'r pechod sy'n distrywio cytgorod dwyfol y byd.

(Addaswyd a chyfieithwyd o 'The Ecologist's Breviary' gan Zdzislaw Kijas, Urdd y Brodyr Lleiaf Cwfeiniol, Katowice 2018.)

Cyflwyniad i'r Weithred Edifeiriol

Nid paradwys mo'n daear, ond nid yw ychwaith yn ddyffryn dagrau ac anobaith. Mae'n rhodd odidog i ni, ond hefyd yn gosod i ni dasg enfawr.

Gadewch inni ofyn, felly, yn onest: sut rwyf innau'n gofalu am y byd rydym yn byw ynddo? Ydw i am i'r ddaear fod yn hardd ac yn gyfoethog o wahanol fathau o fywyd? Sut ydw i'n ymddwyn tuag at natur, tuag at blanhigion ac anifeiliaid? Ydw i'n ymwybodol o'r peryglon i greaduriaid eraill o'm hymddygiad diofal? Gofynnwn i'n Harglwydd da am ei drugaredd.

Arglwydd, a greaist yr holl fyd ac sydd yn ei lenwi'n barhaus â'th bresenoldeb, trugarha wrthym.

Arglwydd, trugarha.

Grist, sydd, drwy dy Groes a'th waith achubol, wedi uno nefoedd a daear, trugarha wrthym.

Grist, trugarha.

Arglwydd, rwyf wedi paratoi nef newydd a daear newydd ar ein cyfer, trugarha wrthym.

Arglwydd, trugarha.

Y Colect

Gweddiwn: Hollalluog Dduw, Creawdwr ac Arglwydd y byd, rwyf wedi bendithio'r holl greadigaeth ac wedi gosod y ddynoliaeth yn warcheidwad arni. Caniatâ i'th holl blant gydlawenhau â thi mewn ysbryd a gwirionedd. Trwy Grist ein Harglwydd.

Amen.

Pregeth

Ymbiliau

Gyda Sant Ffransis o Assisi, nawddsant ecolegwyr, dygwn gerbron yr Arglwydd ein ceisiadau dros bawb ohonom sydd wedi ymgynnull yma, dros yr Eglwys ac ar gyfer yr holl fyd:

Gweddiwn dros yr Eglwys: ar iddi fod yn llusern gobaith ledled y byd, gan atgoffa pawb ohonom o'n cyfrifoldeb i ofalu am rodd werthfawr Duw o'r greadigaeth ac i'w diogelu.
Arglwydd, yn dy drugaredd...

Gweddiwn dros y ddaear, ein cartref cyffredin: ar i ni glywed, drwy ras Duw, ei llefain oherwydd y difrod a wnaed a chael ein hysgogi i'w gwarchod fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ei mwynhau. *Arglwydd, yn dy drugaredd...*

Gweddiwn dros y bobl hynny sydd eisoes yn wynebu sychder, llifogydd a stormydd: ar i Dduw roi iddynt y nerth a'r gobaith i wynebu'r dyfodol wrth iddynt weithio i ymaddasu i'r newidiadau yn yr hinsawdd. *Arglwydd, yn dy drugaredd...*

Gweddiwn dros ein plwyf a'n cymuned leol: ar i ni glywed, drwy ras Duw, cri argyfyngus y ddaear a'i thlodion a chael ein hysbrydoli i ymateb ar yr adeg dyngedfennol hon.
Arglwydd, yn dy drugaredd...

Crynhoi ein hymbiliau:

Dygwn gerbron yr Arglwydd y gweddïau sydd ym mhob un o'n calonnau wrth inni wrando ar gri'r ddaear a llefain y tlodion. [Saib] *Arglwydd, yn dy drugaredd ...*

Gofynnwn am weddïau Mair, ein mam a Brenhines y Greadigaeth, wrth i ni ddweud:
Henffych Fair...

Dduw, ffynhonnell pob daioni, fe'th alwn yn Greawdwr; gwnaethost ein daear ryfeddol o ddim ac rwyf yn cynnal ei bywyd yn barhaus. Cynorthwya ni i fod yn llawn gofal ac yn ddiolchgar am ein cartref, a gawsom gennyf yn rhodd. Boed i ni weithio i gadw hon, ein cartref cyffredin, yn gyforiog o heddwch a chyfiawnder.

Trwy Grist ein Harglwydd.

Amen.

Emyn yr Offrwm. Awgrym: Doniau'r ddaear, er enghraifft – Am brydferthwch daear lawr.

Gweddi uwch y rhoddion

Arglwydd Dduw, derbyn ein rhoddion: ffrwyth y ddaear a gwaith dwylo dynol. Dysg ni i fod yn wylaidd ac yn ddiolchgar am y pethau rhyfeddol rwyf yn eu gwneud yn ein plith.

Trwy Grist ein Harglwydd.

Amen.

Cyflwyniad i Weddi'r Arglwydd

Ynghyd â'r holl greadigaeth, sydd yn ei ffordd ei hun yn caru ei Harglwydd a'i Chreawdwr; ynghyd â'r holl Eglwys sy'n dathlu'r Ewcharist mewn gwahanol leoedd ledled y byd, gweddiwn fel y bu i Grist yr Arglwydd ein dysgu:

Ein Tad...

Gwahoddiad i rannu arwydd tangnefedd

(Os ydym dan do a bod rheolau COVID yn weithredol, fe'n gwahoddir i estyn cyfarchiad digyffwrdd: trown at ein gilydd gyda chledrau'n dwylo ynghyd mewn gweddi, neu gyda'r llaw dde dros y galon.)

Rhodd Duw yw tangnefedd, heddwch â Duw'r Creawdwr a heddwch â'r holl greadigaeth. Boed i'n cyfarchiad gyfleu'r rhodd honno. Rhannwn arwydd tangnefedd â'n gilydd.

(Neu, os ydym yn dathlu yn yr awyr agored, fe'n gwahoddir i ymgrymu a chyffwrdd â'r ddaear, gan ddweud:)

Rhodd Duw yw tangnefedd, heddwch â Duw'r Creawdwr a heddwch â'r holl greadigaeth. Boed i'n gweithred gyfleu'r rhodd honno. Pan na allwn rannu'r tangnefedd hwnnw'n gorfforol, fe'ch gwahoddw'n i gyffwrdd y tir cyffredin ar yr hwn y safwn.

Emyn y Cymun. Awgrymiadau: Presenoldeb Crist, er enghraifft, *Gyda'r saint anturiais nesu, Rŷm wrth dy fwrdd, o Arglwydd cun neu Distewch, cans mae presenoldeb Crist.*

Gweddi ar ôl y Cymun

Dduw cariadus, boed i ras y sagrafen rydym wedi ei derbyn aros yn ein calonnau, fel y gallwn, wedi ein nerthu ganddi, gyflawni dy gynllun i adnewyddu'r holl Greadigaeth. Trwy Grist ein Harglwydd.

Amen.

Gweddi ymrwymiad (gan y Canon Michael Fitzsimmons)

Arglwydd, deuaif i gyflawni dy ewyllys.

Arglwydd, caniatâ i'm clustiau wrando ar gri'r ddaear,
lleisiau fy chwirydd a'm brodyr,
y rhai sy'n wynebu realiti llym newid yn yr hinsawdd.

Arglwydd, deuaif i gyflawni dy ewyllys.

Arglwydd, caniatâ i'm llygaid weld harddwch y cread,
mewn blodau, creaduriaid, coedwigoedd a dinasoedd fel ei gilydd.

Arglwydd, deuaif i gyflawni dy ewyllys.

Arglwydd, caniatâ i'm llais lefaru dros gyfiawnder
gan sicrhau bod y rhai sy'n byw mewn tlodi yn cael eu clywed.

Arglwydd, deuaif i gyflawni dy ewyllys.

Arglwydd, caniatâ i'm dwylo ofalu am y ddaear,
wrth lafurio, medi a dathlu.

Arglwydd, deuaif i gyflawni dy ewyllys.

Arglwydd, caniatâ i'm traed ddilyn y llwybr llai ei draul,
a cherdded yr ail filltir,
wrth fynd â'th neges allan i'r byd.

Arglwydd, deuaif i gyflawni dy ewyllys.

Emynau ôl-ymdeithiol. Awgrym: Diolchgarwch, er enghraifft – *F'enaid mola Dduw'r gogoniant neu Ewch allan mewn llawenydd.*

(Cydnabyddiaeth: Cafodd rhai o'r gweddïau yn yr Offeren hon eu haddasu a'u cyfieithu o The Ecologist's Breviary gan Zdzislaw J Kijas, Urdd y Brodyr Lleiaf Cwfeiniol, Katowice 2018).